**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun , Dydd Gwener, 11 Hydref 2013 am 2.00 pm.

**YN BRESENNOL**

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorwyr Dewi Owens, Joe Welch ac Ann Davies

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr Dominic Oakes, Ms Mary Ludenbach a Ms S Harris

**Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Katie Thomas (dirprwy ar ran Ali Ballantyne)

**Aelodau Cyfetholedig**

Mr G Craigen

**HEFYD YN BRESENNOL**

Arweinydd systemau ar gyfer GwE (PL) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

**PWYNT O WYBODAETH**

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law oddi wrth y Cadeirydd newydd, y Parchedig Martin Evans-Jones a oedd wedi methu dod i'r cyfarfod a aildrefnwyd. Yn ei absenoldeb, ac absenoldeb yr Is-gadeirydd, cymerodd y Cynghorydd Dewi Owens y Gadair ar gyfer y cyfarfod.

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Margaret McCarroll, Bill Tasker ac Arwel Roberts ynghyd ag Ali Ballantyne, y Parchedig Martin Evans-Jones, Cate Harmsworth, y Parchedig Brian H Jones a Tania Ap Siôn

**2 PENODI’R IS-GADEIRYDD YN GADEIRYDD**

Yn unol â chyfansoddiad CYSAG Sir Ddinbych penodwyd yr Is-Gadeirydd presennol, y Parchedig Martin Evans-Jones yn Gadeirydd ar gyfer 2013-2015.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Parchedig Martin Evans-Jones yn Gadeirydd CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2013-2015.*

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD NEWYDD – UN O GYNRYCHIOLWYR YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL**

Yn unol â chyfansoddiad CYSAG Sir Ddinbych gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer penodi Is-Gadeirydd ar gyfer 2013 - 2015 oddi wrth Gynrychiolwyr yr AALl. Yn absenoldeb nifer o gynrychiolwyr yr AALl cytunwyd i ohirio penodi tan gyfarfod nesaf y Cyngor Ymgynghorol.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio penodi Is-Gadeirydd CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2013-15 tan gyfarfod nesaf y Cyngor Ymgynghorol.*

**4 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na chysylltiad sy’n rhagfarnu gan unrhyw un.

**5 MATERION BRYS FEL Y’U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion pwyllgor Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2013 (wedi’u cylchredeg yn flaenorol).

**Materion yn codi: -**

Tudalen 6, eitem rhif 4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Mark Ansawdd Addysg Grefyddol - Ar gais yr Arweinydd Systemau ar gyfer aelodau GwE (AS) cytunodd yr aelodau ohirio'r cyflwyniad ar y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol tan gyfarfod nesaf y Cyngor Ymgynghorol ym mis Chwefror 2014.

Tudalen 7 - eitem rhif 5 Darpariaeth SMSC yn y Sector Addysg Bellach - Cadarnhaodd yr AS fod llythyr wedi cael ei anfon i Goleg Chweched Dosbarth y Rhyl fel y gofynnwyd gan y Cyngor Ymgynghorol ac roedd yr arwyddion cynnar yn gadarnhaol. Cadarnhaodd y byddai'n parhau i symud y mater ymlaen a cheisio cael aelodaeth gyfetholedig. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd yr AS bod ystafell weddi wedi ei neilltuo ond heb ei defnyddio ac yn tueddu i gael ei defnyddio fel man storio. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cysylltu’n uniongyrchol â Chyfarwyddwr y Coleg, Celia Jones, ynglŷn â phryderon parhaus am y defnydd o'r ystafell.

Tudalen 9 - eitem rhif 6 Dadansoddiad o Adroddiadau Archwilio - Cadarnhaodd yr AS fod llythyrau wedi eu hanfon at yr ysgolion a arolygwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2013 fel cofnod cywir.*

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2012/13 (DRAFFT)**

Cyflwynodd yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE (AS) Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Sir Ddinbych 2012/13 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'w cymeradwyo a oedd yn rhoi manylion am weithgareddau CYSAG yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol gan gynnwys cyngor a roddwyd i'r awdurdod addysg lleol ynghyd â materion lleol a chenedlaethol eraill.

Gofynnodd yr AS am gymeradwyaeth yr aelodau i'r adroddiad, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau, fel cofnod cywir i'w ddosbarthu i'r derbynwyr hynny a restrir yn yr adroddiad. Roedd y diwygiadau canlynol wedi cael eu nodi -

- tudalennau 17 a 18 - cyfeiriadau at 'Sir y Fflint' yn cael ei newid i 'Sir Ddinbych'
- tudalen 21 – newid 'Arolygydd/ Ymgynghorydd' i 'Uwch Ymgynghorydd Dysgu'

Roedd yr aelodau'n hapus i dderbyn yr adroddiad fel cofnod cywir o waith CYSAG.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) yn amodol ar y diwygiadau uchod bod Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2012 - 2013 yn cael ei gymeradwyo fel cofnod cywir o waith CYSAG, a*

*(b) gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol drefnu cyfieithu, argraffu a dosbarthu'r adroddiad i'r holl ysgolion a cholegau yn Sir Ddinbych a derbynwyr eraill fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

**8 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGIADAU**

Cyflwynodd yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE (AS) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn dadansoddi canlyniadau arolygiadau diweddar Estyn o ran darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn tair ysgol rhwng mis Mawrth a mis Mai 2013. Roedd arolygiadau wedi'u gwneud yn Ysgol Gymunedol Bodnant, Prestatyn; Ysgol Esgob Morgan, Llanelwy ac Ysgol Stryd y Rhos CP Rhuthun.

Darparodd yr AS yr aelodau â chrynodeb byr o'r canfyddiadau'n ymwneud â phob ysgol ac roedd yr aelodau'n falch o nodi'r sylwadau cadarnhaol ar draws yr ysgolion heb i unrhyw sylwadau negyddol ddod i law. Roedd Mr Gavin Craigen wedi synnu na chyfeiriwyd at weithio mewn partneriaeth ar draws y tair ysgol gan ei fod yn ystyried hyn i fod yn nodwedd gadarnhaol ac arfer da o fewn yr ysgolion hynny. Cadarnhaodd yr AS nad oedd yn nodwedd y rhoddwyd sylwadau cyson arno.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) Y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.*

(b) *Bod llythyr yn cael ei anfon i'r ysgolion a arolygwyd yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Arolwg wedi cael ei ystyried a'u llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd, a*

(c) *gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod*.

## 9 ADRODDIAD ESTYN AR ADDYSG GREFYDDOL MEWN YSGOLION UWCHRADD

Cyflwynodd yr Arweinydd Systemau GwE (AS) adroddiad Estyn ar safonau addysgu a dysgu Addysg Grefyddol o fewn y sector ysgolion uwchradd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013 (dosbarthwyd yn flaenorol). Adroddodd hefyd am fynychu Cynhadledd CCYSAGC Genedlaethol y diwrnod blaenorol lle trafodwyd negeseuon allweddol o'r Adolygiad Thematig Estyn ar gyfer Addysg Grefyddol ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd trwy Addysg Grefyddol. Y prif siaradwyr yn y Gynhadledd oedd -

- Mark Campion, Estyn - Adolygiad Thematig Estyn ar gyfer Addysg Grefyddol
- Richard Roberts, CfBT - Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Roedd sampl o 20 o ysgolion uwchradd wedi eu harolygu yng Nghymru fel rhan o'r astudiaeth (roedd Ofsted wedi ymweld â 70 o ysgolion yn Lloegr) ac roedd yr adroddiad yn cynnwys safonau yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, mae cyrhaeddiad mewn astudiaethau crefyddol TGAU a chyfranogiad ac ymgysylltu mewn dysgu. Roedd hefyd yn cynnwys ffactorau sy'n effeithio ar safonau gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm, addysgu, asesu, arweinyddiaeth, gwella ansawdd a dylanwadau allanol. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y prif ganfyddiadau canlynol -

- Roedd canlyniadau yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda mwy o ddisgyblion yn ennill cymhwyster mewn AG nag mewn unrhyw bwnc di-graidd eraill
- Mae'r niferoedd sy'n cymryd y cwrs TGAU llawn a byr mewn Astudiaethau Crefyddol wedi codi dros y pum mlynedd diwethaf, gydag ychydig dros chwarter y disgyblion wedi cofrestru ar y cwrs llawn ac ychydig dros hanner y disgyblion wedi cofrestru ar y cwrs byr
- Mae cyrhaeddiad wedi codi'n gyson yn y cwrs llawn ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pynciau eraill ac er bod cyrhaeddiad wedi disgyn yn y cwrs byr mae perfformiad wedi aros yn gyson well na'r DU
- Roedd y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched yn ehangach yng Nghymru ar gyfer y ddau gwrs nag ar draws y DU
- roedd y safonau'n dda yn y mwyafrif o ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 3, ond roedd ychydig o ysgolion lle'r oedd y safonau'n anfoddhaol ac roedd argymhelliad i sicrhau bod tasgau yn ddigon heriol i alluogi disgyblion mwy galluog i gyrraedd lefelau uwch - ers cyhoeddi'r adroddiad darparwyd hyfforddiant ar gyfer athrawon Sir Ddinbych er mwyn gwella cywirdeb asesiadau athrawon o lefelau disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3
- Defnyddiwyd athrawon anarbenigol i addysgu AG a'r cwrs byr ond anaml y cânt yn eu defnyddio i addysgu'r cwrs llawn - nid oedd athrawon anarbenigol wedi cael effaith negyddol ar safonau yn y rhan fwyaf o ysgolion

- Roedd hunan-arfarnu yn dda neu'n well mewn dim ond lleiafrif o adrannau AG ac roedd yn argymhelliad i gryfhau hunan-arfarnu a defnyddio data i nodi ble a beth i'w wella
- Nodwyd bod diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau dysgu a oedd yn golygu nad oedd digon o rannu arfer da ac nad aethpwyd i'r afael â heriau yn effeithiol.

Ymhelaethodd yr AS hefyd ar yr argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad. O ran argymhelliad Llywodraeth Cymru (LlC) R7 y dylid trin data cyrhaeddiad ar gyfer Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol yn yr un modd â phynciau di-graidd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb na fyddai'n briodol i fwrw ymlaen â'r argymhelliad yng ngoleuni'r adolygiad cwricwlwm parhaus ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Yr argymhelliad olaf A8 oedd bod LlC yn gweithio gydag awdurdodau lleol a CYSAG i wella'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau cefnogi dysgu ar gyfer athrawon addysg grefyddol. Roedd rhwydweithiau wedi diflannu yn Sir Ddinbych ar ôl cael gwared ar y swyddi ymgynghorydd dysgu ac er mwyn symud ymlaen yr argymhelliad hwnnw, cynigiwyd y dylid anfon llythyr at Bennaeth Addysg Sir Ddinbych, Karen Evans, yn holi am gyfleoedd a chefnogaeth i athrawon AG a chynnig cefnogaeth CYSAG mewn perthynas â hynny. Roedd CCYSAGC hefyd yn ganolog ar ddarparu cefnogaeth ar gyfer athrawon o dan yr argymhelliad hwnnw.

Trafododd yr Aelodau yr argymhellion ar gyfer ysgolion a nodwyd yn yr adroddiad a sut orau i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched. Nodwyd bod hwn hefyd yn broblem mewn meysydd pwnc eraill a chyfeiriodd y Cadeirydd at strategaethau lleol a oedd wedi cael eu cyflwyno i fynd i'r afael ag anghysondebau rhwng y rhywiau yn Sir Ddinbych gyda chanlyniadau cadarnhaol. Dywedodd yr AS fod CCYSAGC wedi ystyried ei gyfrifoldebau o ran cefnogi athrawon ac yn awyddus i fynd i'r afael â'r mater drwy ddarparu hyfforddiant. Cytunwyd i gysylltu â'r Pennaeth Addysg, Karen Evans i holi ynghylch unrhyw strategaethau lleol y gellid eu gweithredu gyda golwg ar godi cyrhaeddiad bechgyn o ran AG.

Ystyriodd CYSAG hefyd y canfyddiad nad yw athrawon anarbenigol yn cael effaith negyddol ar safonau yn y rhan fwyaf o ysgolion a'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn. Cydnabuwyd nad oedd sgiliau addysgu yn newid ar draws y pynciau a gallai gwahanol bynciau gael eu dysgu yn dda gan athrawon anarbenigol. Adroddodd yr AS ar ei brofiad ei hun o ddysgu AG a phwysigrwydd cynllun gwaith cadarn a chynlluniau gwersi er mwyn rhannu arfer da a chodi safonau. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon hefyd nad oedd gan rai athrawon yr wybodaeth a'r brwdfrydedd i addysgu pynciau anarbenigol a bod angen am athrawon arbenigol. Amlygwyd hefyd bod cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU llawn wedi codi dros y pum mlynedd diwethaf, lle defnyddiwyd athrawon arbenigol ond bod cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU byr wedi gostwng lle defnyddiwyd athrawon anarbenigol. Eglurwyd y rheswm am y cwymp mewn cyrhaeddiad yn y cwrs byr gan rai ysgolion sy'n defnyddio'r cwrs byr i sicrhau bod y mwyafrif o'r disgyblion yn derbyn cymhwyster mewn AG a ffrydio’r ymgeiswyr mwy galluog i'r cwrs llawn. Cododd hyn y cwestiwn ynghylch a fyddai’r disgyblion hynny sy'n dod i'r cwrs byr wedi cyflawni canlyniad gwell pe baent wedi cael eu haddysgu gan athrawon arbenigol. Nododd yr Aelodau hefyd fod y cwrs TGAU byr yn werth hanner TGAU llawn a bod ysgolion yn tueddu i ddewis y cwrs hwnnw gan y gellid ei wneud yn yr amser sydd wedi'i

neilltuo i wneud y gofyniad cyfreithiol o ran AG – ac felly daeth yr argymhelliad (A2) i ystyried rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion i ennill cymhwyster priodol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Wrth drafod safonau cyflawniad amlygodd yr aelodau na ellid bob amser mesur manteision a gwerth AG mewn cyrhaeddiad academaidd. Awgrymwyd hefyd bod arfer blaenorol CYSAG o dderbyn cyflwyniadau ar y ddarpariaeth AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion yn cael ei adfywio.

Ar ddiwedd y drafodaeth, amlygodd Mr Gavin Craigen ddwy agwedd ar gyflwyniad Mark Campion yn y Gynhadledd CCYSAGC Genedlaethol -

- y ffaith bod bron pob un o'r disgyblion yn parchu barn a chredoau pobl eraill a gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei ddysgu yn AG a oedd yn neges gadarnhaol y dylid ei hyrwyddo a'i rhannu ag eraill, a
- roedd safonau addysgu mewn ysgolion yn ardderchog gydag ychydig iawn o wersi anfoddhaol ac roedd addysgu mewn AG yn sylweddol well nag mewn pynciau eraill.

Roedd Mr Craigen yn cefnogi'r cynnig i ysgrifennu at y Pennaeth Addysg ynghylch rhwydweithiau dysgu ond yn teimlo y dylai'r mater gael ei archwilio yn y gymuned ehangach a’r trefniadau consortia sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Teimlai hefyd y dylai'r adroddiad gael ei ddwyn i sylw ysgolion i ystyried yr argymhellion. Wedi trafodaeth bellach -

***PENDERFYNWYD:-***

*(a)* *derbyn a chofnodi’r adroddiad, a*

*(b)* *anfon llythyr ar ran CYSAG at y Pennaeth Addysg Sir Ddinbych, Karen Evans, yn gwneud ymholiadau ynglŷn â’r canlynol -*

- *unrhyw strategaethau lleol y gellid eu gweithredu gyda golwg ar godi cyrhaeddiad bechgyn o ran AG.*
- *cyfleoedd a chefnogaeth i athrawon AG o ran datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau cefnogi dysgu (gan gynnwys trefniadau consortia) a chynnig cefnogaeth CYSAG yn y cyswllt hwnnw, a*
- *Y dull gorau i ddwyn yr adroddiad i sylw’r ysgolion i ystyried yr argymhellion sy’n berthnasol iddyn nhw.*

## 10 CCYSAGC

### (A) Cofnodion CCYSAGC - 19 Mehefin, 2013

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2013 yng Nghaernarfon (a ddosbarthwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r aelodau. Soniodd yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE (AS) ar gyflwyniad a wnaeth yn y cyfarfod ar y Marc Ansawdd AG (REQM) mewn cyd-destun Cymreig penodol a oedd wedi cael ei dreialu yn ddiweddar mewn rhai

ysgolion. Mae'r ysgolion hynny wedi rhannu eu profiadau yn CCYSAGC a chadarnhaodd yr AS byddai hefyd yn eu gwahodd i'r cyfarfod CYSAG nesaf pan fydd y REQM ar y rhaglen. Roedd CCYSAGC wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer cyfieithu'r dogfennau. Mewn ymateb i gwestiynau, soniodd yr AS am y gwaith parhaus i newid y meini prawf Saesneg ar gyfer y REQM i'r cyd-destun Cymreig. Y gost o wneud cais ar gyfer yr asesiad REQM fyddai £450.00 fesul ysgol ond byddai ysgolion yn cael eu hannog i edrych trwy'r deunyddiau hyd yn oed os nad oeddent yn gwneud cais am y marc ansawdd.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion CCYSAGC a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2013 a nodi'r adroddiad llafar gan yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE ar y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol.*

**(B) cyfarfod CCYSAGC - 27 Mawrth, 2014**

Dywedodd yr Arweinydd Systemau ar gyfer GwE (AS) y byddai cyfarfod nesaf CYSAG Cymru yn cael ei gynnal ar 27 Mawrth 2014 yng Nghaerffili a gofynnodd am gadarnhad o gynrychiolwyr i fod yn bresennol. Hefyd tynnodd sylw'r aelodau at enwebiadau a dderbyniwyd ar gyfer y Pwyllgor Gwaith (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi gwybod bod dau enwebiad ar gyfer un swydd.

Trafododd yr Aelodau bresenoldeb yn y cyfarfod nesaf ac ystyried yr ymgeiswyr ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a -

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) Bod y Cynghorydd Ann Davies a Philip Lord yn mynychu cyfarfod nesaf CCYSAGC ar 27 Mawrth 2014, ac*

*(b) Bod y Cynghorydd Michael Gray, Caerffili yn derbyn pleidlais CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer ei ethol ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGC.*

## 11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych am 10am ar ddydd Gwener 14 Chwefror 2014 yn Siambr y Cyngor, Ffordd Nant Hall, Prestatyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm.